# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

Deddf gan Senedd Cymru i wneud darpariaeth am reoli tir yn gynaliadwy; i wneud darpariaeth sydd a wnelo â chymorth ar gyfer amaethyddiaeth ac mewn cysylltiad â hynny; i ddiwygio Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 mewn cysylltiad â datrys anghydfodau ynghylch tenantiaethau amaethyddol; i wneud darpariaeth am faterion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol; i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 mewn cysylltiad â thrwyddedau cwympo coed; ac i ddiwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 mewn cysylltiad â gwaharddiadau yn ymwneud â maglau a thrapiau etc. [17 Awst 2023]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Introductory Text yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.